| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 16 Chwefror 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Barbara Smith / Cynghorydd Hugh Irving / Angela Loftus |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Sue Lewis / Angela Loftus |
| **Teitl:** | Diweddariad ar yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr, |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

**1.1.** Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2016 ar gyfer Sir Ddinbych sy'n ystyried yr angen posibl yn y dyfodol am Ddarpariaeth Llety Sipsiwn a Teithwyr preswyl a symudol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Cyflwyno casgliadau Asesiad drafft o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2016. Rhaid i'r Asesiad gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 26 Chwefror 2016. Mae'r adroddiad ar yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr drafft Sir Ddinbych 2016 yn amgaeedig fel Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir:

- Ystyried yr adroddiad a chymeradwyo cyflwyno'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru.
- Cymeradwyo defnyddio ymagwedd ranbarthol at chwilio am safleoedd i gwrdd ag unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol fydd ei hangen.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi anghenion, yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Y gwahaniaeth allweddol o'i gymharu â deddfwriaeth flaenorol yw mai'r ddyletswydd yn awr yw asesu unrhyw anghenion **<u>a</u>** diwallu unrhyw angen a nodwyd.

4.2 Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol gynnal asesiad cyfredol erbyn 26 Chwefror 2016 a bob 5 mlynedd ar ôl hynny. Mae asesiad 2015-16 wedi ei gynnal ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er y bydd dogfennau ar wahân yn cael eu cyflwyno gan bob awdurdod. Mae'r dull cydweithredol hwn yn dilyn argymhellion yr asesiad blaenorol (2013) a oedd yn galw am safle dros dro a rennir ar gyfer y ddau awdurdod gan fod cyfran uchel o wersylloedd diawdurdod yn bodoli yng ngogledd y Sir yn yr ardal ar y ffin.

4.3 Nod cyffredinol yr astudiaeth Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yw asesu a oes angen darparu llety pellach ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn ardal yr astudiaeth ac, os felly, sut y dylid ei ddarparu i gwrdd ag anghenion y gymuned Sipsiwn a Teithwyr orau.

4.4 Caiff y diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' at ddibenion y broses asesu llety hwn ei gynnwys yn adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014: Caiff Sipsiwn a Theithwyr eu diffinio fel:

(a) Unigolion o arfer nomadaidd bywyd, beth bynnag yw eu hil neu darddiad, gan gynnwys: unigolion sydd, ddim ond ar sail anghenion addysg neu iechyd neu henaint eu hunain neu eu teuluoedd neu ddibynyddion, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol; a

(b) aelodau o grŵp wedi'i drefnu o bobl sioe neu bobl syrcas teithiol (pa un ai ydynt yn teithio gyda'i gilydd fel y cyfryw ai peidio); a

(c) unigolion eraill gyda thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn carafán."

4.7 Mae dealltwriaeth o faterion llety Sipsiwn a Theithwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau darpariaeth wedi'i chynllunio'n briodol ac osgoi'r problemau sy'n gysylltiedig â darpariaeth ad hoc neu anawdurdodedig. Bydd asesiad a strategaeth llety cynhwysfawr i ddiwallu angen a gaiff ei nodi yn wirioneddol gryfhau gallu Awdurdodau Lleol i ymateb yn gyflym ac yn gadarn i ddatblygiadau a gwersylloedd anawdurdodedig amhriodol. Ar hyn o bryd nid oes gan Sir Ddinbych unrhyw safleoedd awdurdodedig ar gyfer sipsiwn a theithwyr.

4.8 Cwblhawyd asesiad blaenorol ym mis Mawrth 2013 ar sail Rhanbarth Gogledd Orllewin Cymru ac fe'i cynhaliwyd gan Brifysgol Bangor. Nododd yr asesiad blaenorol:

- angen am 2 lain preswyl yn Sir Ddinbych ar gyfer y cyfnod hyd at 2016
- angen am safle dros dro ar y ffin rhwng Sir Ddinbych a Chonwy.

4.10 Roedd astudiaeth 2016 yn defnyddio ystod eang o ddulliau i ymgysylltu gyda'r grŵp anodd eu cyrraedd hwn. Roedd yn cynnwys i ddechrau casglu data o nifer o ffynonellau gan gynnwys Cyfrifiad 2011, addysg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cafodd yr astudiaeth gyhoeddusrwydd i sicrhau bod y gymuned teithio yn ymwybodol o'r astudiaeth ac yn cael eu hannog i gymryd rhan. Cafodd gwaith maes a chasglu data ar gyfer yr arolwg ei gynnal gan Opinion Research Services ar ran Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cafodd aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr a oedd wedi eu nodi eu cyfweld gan weithwyr maes ORS i

asesu eu hanghenion. Mae Pennod 3 yr adroddiad yn rhoi manylion pellach am y fethodoleg a ddefnyddiwyd.

4.11 Mae’r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 wedi datgelu'r canlynol:

- Mae angen clir am safle(oedd) dros dro neu le aros o ystyried nifer yr achosion o wersylloedd diawdurdod
- Mae dau o aelwydydd sipsiwn sy'n byw ar hyn o bryd mewn tai (brics a morter) wedi mynegi dewis i fyw ar safle. O ran anghenion tai nid ydynt yn ymddangos eu bod yn dangos tystiolaeth o angen ar unwaith ond yr hoffent ddarpariaeth safleoedd sipsiwn/ teithwyr.

4.12 Ar ôl ei gymeradwyo gan y Cabinet, bydd Adroddiad Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych 2016 yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod angen am safle dros dro neu le aros yng ngogledd y Sir ac o dan ddarpariaethau Deddf Tai (Cymru), bydd yn ofynnol i'r Cyngor ddiwallu’r angen hwn.

4.13 Mae’r angen am unrhyw ddarpariaeth safleoedd yn y dyfodol yn fater rhanbarthol o ystyried symudiad Sipsiwn a Theithwyr yng Ngogledd Cymru a'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer safleoedd. Mae canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn nodi “Rydych yn cael eich annog i ystyried dull rhanbarthol mewn perthynas â datblygu safleoedd dros dro newydd i Sipsiwn a Theithwyr” (tudalen 7). Dull rhanbarthol o nodi safle yw'r ffordd orau ymlaen a gofynnir i'r Aelodau gefnogi'r cynnig hwn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Y Blaenoriaethau Corfforaethol perthnasol yw:

- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae cost yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei rannu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac mae wedi'i gynnwys yn y cyllidebau presennol. Bydd angen ymchwiliad pellach i unrhyw gostau unwaith y gwneir penderfyniad ynghylch a oes angen neu beidio o ran darpariaeth sipsiwn a theithwyr. Gall Awdurdodau Lleol o bosibl gael gafael ar gyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at y gost o ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd os oes angen.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AoEaG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a’i atodi i'r adroddiad.

Ni chredir bod angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad gwybodaeth hwn. Mae'r adroddiad yn ymwneud ag asesiad technegol ac nid yw'n cynnig gweithdrefnau neu bolisïau newydd.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad drwy ystod o ddulliau:

- Trafod yn rheolaidd yn y Grŵp Swyddogion Arweiniol
- Trafod mewn cyfarfodydd Cydlynu Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru (yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, yr Heddlu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
- Hysbysiad wedi'i anfon at yr holl Gynghorwyr i roi gwybod iddynt am yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a chais am unrhyw wybodaeth i lywio'r astudiaeth
- Trafod fel rhan o'r Strategaeth Dai, gan gynnwys y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2016
- Cyfarfod Grŵp Llywio ar y Cyd Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr
- Hysbysebion sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o'r gwaith asesu gyda sipsiwn a theithwyr wedi'u rhoi yn y Traveller Times a chyhoeddiadau eraill gan Opinion Research Services a Llywodraeth Cymru
- Cyfweliadau a gynhaliwyd gyda Sipsiwn a Theithwyr gan Opinion Research Services.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd cyfran Sir Ddinbych o gostau'r Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei chynnwys o fewn cyllidebau refeniw presennol yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Os, maes o law y penderfynir bod angen gwneud darpariaeth sipsiwn a theithwyr yna bydd angen i ariannu unrhyw gostau o wneud hynny gael eu nodi a'u cytuno gan y Cyngor.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Bydd gwersylloedd anghyfreithlon ar dir y Cyngor a thir preifat yn parhau os nad yw anghenion tai Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu diwallu. Bydd datrys problem gwersylloedd anghyfreithlon o'r fath yn anochel yn arwain at gostau i'r awdurdod. Byddai darpariaeth ar gyfer llety dros dro yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

10.2 Gallai'r ddwy aelwyd y cyfeirir atynt uchod sydd wedi mynegi dewis i fyw ar safle parhaol herio'r Cyngor am beidio â darparu safle sipsiwn a theithwyr parhaol. Fodd bynnag, nid yw aelwydydd hyn wedi dangos tystiolaeth o angen am dai ar unwaith.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Tai (Cymru) 2014 – rhan 3